

Cafcass Cymru

Pecyn Gwybodaeth

Fframwaith Ymarferwyr sy'n derbyn Ffi



Math	Pecyn Gwybodaeth
Fersiwn	4.0
Awdur	Ceryl Williams
Dyddiad	Tach 2021
Dyddiad Adolygu	Tach 2022

Cefndir

Mae Cafcass Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd ynghlwm wrth achosion llys teulu.

Mae gan Cafcass Cymru ran hollbwysig yn cefnogi plant a theuluoedd, ac mae'n dweud wrth y llysoedd beth sydd orau i blant. Llys sy'n cyfeirio pob achos atom. Mae beth fydd yn llesol i blentyn yn y dyfodol yn ganolog ymhob penderfyniad sy'n cael ei wneud a phob cam gweithredu sy'n cael ei gymryd gan Cafcass Cymru. Ein pwrpas yw diogelu'r plentyn a sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed yn y System Cyfiawnder Teuluol.

Mae gan Cafcass Cymru 9 o swyddfeydd ledled Cymru, sy'n gofalu am bum ardal weithredol. Dyma'r pum ardal:

- Gogledd Cymru
- De Cymru
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- De Orllewin Cymru
- Gwent

Mae Pennaeth Gweithrediadau ar bob ardal weithredol, ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn yr ardal honno. Mae Pennaethiaid Gweithrediadau'n cael eu cefnogi gan Reolwyr Practis sy'n cynorthwyo ac yn cefnogi'r Pennaeth Gweithrediadau i reoli tîm o ymarferwyr.

Penodi Ymarferwyr sy'n derbyn Ffi

Mae Cafcass Cymru yn bwriadu penodi ymarferwyr sy'n derbyn ffi i roi cymorth i'r gweithlu presennol ar adegau prysur a thrwm. Sefydlwyd fframwaith i helpu i ddod â gweithwyr cymdeithasol cymwysedig i'r sefydliad ar fyr rybudd yn unrhyw un o'r ardaloedd. Penodir ymarferwyr sy'n derbyn ffi mewn ardal, a bydd gofyn iddo/iddi deithio i'w swyddfa, ymweld â chartrefi a'r llys pan fo angen.

Bydd yr ymarferwyr sy'n derbyn ffi yn gwneud gwaith uniongyrchol ar achosion Preifat a/neu'r Gyfraith Gyhoeddus sy'n cyfateb i lefel y cyfrifoldeb rheoli, fel y cytunir gyda'r Rheolwr Practis perthnasol a/neu'r Pennaeth Gweithrediadau. Penodir ymarferwyr sy'n derbyn ffi fel contractwyr annibynnol i ddarparu'r gwasanaethau. Mae disgrifiad swydd ar gael yn **Atodiad 1**.

Yn ystod y cyfnod, bydd yr ymarferwr sy'n derbyn ffi yn:

- darparu ei wasanaethau yn unol â'r arferion proffesiynol gorau
- darparu ei wasanaethau'n brydlon mewn modd proffesiynol a chwrtais i adlewyrchu a hyrwyddo delwedd Cafcass Cymru
- cael mynediad at yr holl bolisiâu a gweithdrefnau gweithredol perthnasol, ac yn cydymffurfio â nhw

- cael hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch gwybodaeth, a hyfforddiant ar reoli achosion ar IRIS pan fydd yn cael ei benodi
- cael ei dalu fel y nodir yn y rhestr gyfraddau yn **Atodiad 2**
- cael cyfrifoldeb am ddiogelwch yr holl wybodaeth – electronig a chopi caled
- yswiriant indemniad proffesiynol gyda chwmni yswiriant ag enw da, sy'n rhoi sicrwydd o £2,000,000 o leiaf, a chadw'r yswiriant am gyfnod o 5 mlynedd ar ôl i'r cyfnod ddod i ben

Cyn cael eu penodi ar achos, bydd ymarferwyr yn cael gliniadur gan Lywodraeth Cymru i gael mynediad diogel i'r system. Bydd unrhyw wybodaeth am yr achos yn cael ei storio ar IRIS, sef y system electronig ar gyfer rheoli achosion, ac iShare, y system electronig ar gyfer rheoli dogfennau.

Mae Cyllid a Thollau EM wedi penderfynu bod statws cyflogaeth i'r gwaith hwn i ddibenion trethu ac yswiriant gwladol. Am y rheswm hwn, cewch eich talu drwy system gyflogau Llywodraeth Cymru gan ddiwynnu treth incwm ac yswiriant gwladol. Nid bwriad hyn yw rhoi hawliau cyflogaeth.

Ar ôl i'r ymarferwyr sy'n derbyn ffi gael eu rhoi ar y fframwaith, byddant yn aros ar y rhestr am gyfnod o 12 mis ac yna bydd eich statws yn cael ei adolygu. Bydd yr holl ymarferwyr sy'n derbyn ffi yn destun gwerthusiad perfformiad chwe misol. Mae gan Cafcass Cymru yr hawl i'ch tynnu oddi ar y fframwaith os cafwyd perfformiad anfoddhaol ddwy neu ragor o weithiau neu lle mae gwaith wedi'i gynnig ond nad oes unrhyw waith wedi'i gwblhau o fewn y cyfnod o 12 mis.

Pan gewch eich penodi ar y fframwaith, cewch gontract trosfwaol i ddarparu gwasanaethau, a bydd angen i chi ei lofnodi. Pan gewch eich penodi ar achos, cewch gontract unigol yn nodi manylion yr achos.

Pa gymorth parhaus fydd ar gael?

Rydym yn ystyriol ac yn barchus o'ch annibyniaeth a'r ffaith y bydd gennych ymrwymadau proffesiynol eraill hefyd ar wahân i Cafcass Cymru. Fodd bynnag, mae gennym gyfrifoldeb i adolygu ansawdd, gwerth ac effeithiolrwydd a byddwn yn eich cefnogi gydag ymholiadau ymarfer trwy roi rheolwr ymarfer cyfrifol i chi sy'n gallu cynorthwyo gyda hyn.

Gallwch hefyd ddisgwyl bob amser gael cyfarfod adolygu contract blynyddol gyda'ch rheolwr contract, lle y trafodir sawl peth, gan gynnwys:

- llesiant
- safon gwaith
- argaeledd a'r math o waith / maes gwaith sydd ei angen
- datblygiad proffesiynol

Mae eich rheolwr contract hefyd ar gael ichi yn ôl yr angen ar sail ad hoc ac mae tîm cymorth busnes a fydd yn goruchwyllo'r broses o ddyrannu gwaith i chi ac yn eich cefnogi gydag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau a allai fod gennych.

Cymhwysra/Gwirio Archwiliadau Penodi

Bydd pob ymarferwr sy'n derbyn ffi yn:

- Bod yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig â diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (neu gymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan Ofal Cymdeithasol Cymru) ac o leiaf 5 blynedd o brofiad, ar ôl cymhwyso, o weithio â phlant a'u teuluoedd.
- Bod yn Weithiwr Cymdeithasol sydd wedi cofrestru â rheoleiddiwr Gofal Cymdeithasol. Ar gyfer pob practis yng Nghymru, rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Meddu ar dystiolaeth gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (cynhelir gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r gwiriadau cyn cyflogi a chaiff ei adnewyddu trwy Lywodraeth Cymru bob tair blynedd)
- Cynnal yswiriant indemniad proffesiynol gyda chwmni yswiriant ag enw da, sy'n rhoi sicrwydd o £2,000,000 o leiaf, ar adeg eu penodi.
- Disgwylir i deithio o amgylch eu hardal ddaearyddol i fynychu swyddfa sylfaen, gwrandawiadau llys, ac i gynnal ymweliadau cartref.
- Gallu cyflawni'r meini prawf cymhwysedd a'r meini prawf sy'n benodol i'r swydd fel y nodir yn y disgrifiad swydd

Penodir yn amodol ar gadarnhau'r gwiriadau cymhwysedd uchod cyn dechrau ar y swydd.

Hefyd, bydd disgwyl i'r ymgeiswyr lenwi ffurflen cyn-lleoliad 1, BPSS (Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél) sy'n gwirio hunaniaeth; hanes cyflogaeth / addysg (y 3 blynedd diwethaf); cenedligrwydd a statws mewnfudo a chofnod troseddol. Er mwyn cael tystiolaeth o'r amodau penodi uchod, bydd disgwyl i'r ymgeiswyr drefnu apwyntiad sgrinio diogelwch cyn-lleoliad, gan ddod â ffurflen cyn-lleoliad 1 wedi'i llenwi, yn ogystal â thri math o brawf adnabod:

- **Dogfen ffotograffig**
e.e. pasbort dilys a / neu drwydded yrru o'r math newydd, sy'n cadarnhau eich dyddiad geni.
- **Dogfen sy'n dangos eich cyfeiriad presennol**
rhaid i'r dyddiad arni fod yn llai na 3 mis yn ôl, ond nid bil ffôn symudol na dogfennau wedi'u hargraffu oddi ar y we (biliau ar-lein, cyfriflen banc ar-lein) e.e. bil cyfleustodau, cyfriflen banc / cymdeithas adeiladu
- **Un math arall o ddogfen adnabod**
e.e. e.e. tystysgrif geni, tystysgrif priodas, bil cyfleustodau, cyfriflen banc / cymdeithas adeiladu, trwydded teledu, cyfriflen cerdyn credyd, cyfriflen y dreth gyngor, tystysgrif yswiriant.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â CafcassCymruHR@llyw.cymru

Atodiad 1

Cafcass Cymru

Penodi Ymarferwyr sy'n derbyn Ffi



Mae Cafcass Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd ynghlwm wrth achosion llys teulu.

Mae gan Cafcass Cymru ran hollbwysig yn cefnogi plant a theuluoedd, ac mae'n dweud wrth y llysoedd beth sydd orau i blant. Llys sy'n cyfeirio pob achos atom. Mae lles plentyn yn y dyfodol yn ganolog ymhob penderfyniad sy'n cael ei wneud a phob cam gweithredu sy'n cael ei gymryd gan Cafcass Cymru. Ein pwrpas yw diogelu'r plentyn a sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed yn y System Cyfiawnder Teuluol.

Diddordeb mewn gweithio i Cafcass Cymru?

Mae Cafcass Cymru yn chwilio am weithwyr cymdeithasol annibynnol i weithio fel ymarferwyr sy'n derbyn ffi i weithio ar sail ad hoc i roi cymorth i dimau ardal er mwyn ateb galw am wasanaethau sy'n amrywio. Mae'r rôl hon yn cynnig hyblygrwydd a'r gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun er mwyn iddo weddu i'ch amgylchiadau personol.

Mae rhagor o wybodaeth, a manylion sut i wneud cais, ar gael ar ein gwefan yn <http://cafcass.gov.wales/aboutus/jobvacancies/?lang=cy>

Mae Cafcass Cymru yn gwahodd ceisiadau gan unigolion cymwysedig a phrofiadol i fod yn rhan o gronfa broffesiynol o ymarferwyr sy'n derbyn ffi i weithio yn ôl y galw.

Bydd ymarferwyr sy'n derbyn ffi yn rhoi cymorth i dimau gweithredol i asesu anghenion, diogelu a hybu lles plant unigol sy'n rhan o Achosion Teuluol ac i roi cyngor ac adroddiadau i'r llysoedd teulu er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl i'r plant.

Bydd angen i ymgeiswyr fod â Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (neu gymhwyster cyfwerth sy'n cael ei gydnabod gan Gofal Cymdeithasol Cymru) a phum mlynedd o leiaf o brofiad ar ôl cymhwyso o weithio gyda phlant a'u teuluoedd mewn gwasanaethau diogelu yn y sector statudol.

Mae gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhywbeth dymunol ond nid yw'n hanfodol.

Hefyd, cyn eu penodi, bydd angen i ymgeiswyr fod yn destun gwiriadau cymhwystra, a bydd disgwyl iddynt fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, meddu ar wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bod ag yswiriant indemniad

proffesiynol gyda chwmni yswiriant ag enw da sy'n rhoi sicrwydd o £2,000,000 o leiaf, a meddu ar drwydded yrru gyfredol ac yswiriant modur (defnydd busnes).

Bydd angen teithio ledled Cymru ar gyfer y swydd, gan aros dros nos o bryd i'w gilydd.

Ceir rhagor o fanylion yn y pecyn gwybodaeth. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn ymarferwr sy'n derbyn ffi, llenwch y ffurflen gais atodedig a'i hanfon ar e-bost i CafcassCymruHR@llyw.cymru

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â CafcassCymruHR@llyw.cymru

Atodiad 2

Fframwaith Ymarferwyr sy'n derbyn Ffi

Rhestr y cyfraddau sy'n gymwys i gontract am wasanaethau



1. Gwaith cyfradd fesul awr:

- 1.1. Bydd unrhyw waith a wneir ar gyfer darparu gwasanaethau neu benodiad gan y llys fel swyddog i'r gwasanaeth, a bydd yn derbyn tâl o £35 yr awr.
- 1.2. Bydd darparu gwasanaethau'n cynnwys paratoi, ystyried dogfennau, mynychu cyfarfodydd, cwrdd â'r holl bartïon perthnasol, mynychu'r llys a llenwi a ffeilio adroddiadau.
- 1.3. Bydd penodiad gan y llys fel swyddog i'r gwasanaeth yn cynnwys:
 - Penodiad yn warcheidwad plant;
 - Penodiad yn adroddwr gorchymyn rhiant;
 - Penodiad yn swyddog â chyfrifoldeb am Orchymyn Cymorth Teulu;
 - Penodiad yn swyddog i'r gwasanaeth i fonitro gorchymynion Trefniadau Plant;
 - Penodiad yn swyddog adrodd;
 - Penodiad yn Adroddwr Plant a Theulu mewn achosion Mabwysiadu.

2. Amser Teithio

- 2.1. Bydd y swm o £35 yr awr yn cael ei thalu am amser teithio i apwyntiadau, i wrandawiadau llys a chyfarfodydd proffesiynol eraill. Bydd gan Ymarferwyr sy'n derbyn Ffi un lleoliad penodol i ddiben hawlio amser teithio.
- 2.2. Os yw'r Contractwr yn cael ei orchymyn gan y llys i deithio dramor, cytunir ar ffi ymlaen llaw gyda'r Rheolwr Contract i dalu am yr amser teithio a'r amser pryd nad yw'r Contractwr yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith achos. Rhaid cytuno ar hyn â'r Rheolwr Contract ymlaen llaw.

3. Teithio a chynhaliath

- 3.1. Ni fydd costau teithio a chynhaliath yn cael eu talu fel arfer oherwydd mae hyn yn rhan o'r ffi amser teithio. Pan fo'n rhaid i'r Contractwr weithio y tu allan i'r ardal weithio arferol, bydd y Rheolwr Contractau'n cytuno â'r Contractwr, **ymlaen llaw**, ar amrywiad i delerau'r contract i gynnwys tâl am gostau teithio 'allan o boced' ar ffurf treuliau teithiau trên safonol neu filltiroedd ar sail y gyfradd milltiroedd teithio a chynhaliath sydd gan Cafcass Cymru, pa un bynnag sydd leiaf. Os yw'n llai na chost taith allan ac yn ôl, bydd y llety'n gyfyngedig i'r gyfradd ffrindiau a theulu sydd gan Cafcass Cymru ar y pryd. Dim ond treuliau y cytunir arnynt ymlaen llaw fydd yn cael eu talu.